

## PA1P — Ffurflen gwneud cais am Brofiant

Mae'r ffurflen hon ar gyfer gwneud cais lle mae'r unigolyn sydd wedi marw wedi gadael ewyllys

Llinell Gymorth Profiant

0300 123 1072

0300 303 0654

(Siaradwyr Cymraeg)

**Rhestr wirio** – cyn i chi anfon eich ffurflen gais i'r gofrestrfa brofiant, bydd angen i chi amgáu'r canlynol. Rhaid cwblhau'r rhestr wirio hon. Os nad ydych yn amgáu'r holl ddogfennau gofynnol, bydd hynny'n arafu'r broses o ymdrin â'ch cais. Dylech gadw copïau o'r holl ddogfennau rydych yn eu hanfon.

- PA1P - Ffurflen Gwneud cais am Brofiant (y ffurflen hon) - lle mae unigolyn sydd wedi marw wedi gadael ewyllys.
- Ffurflen Crynodeb Treth Etifeddu: Cyflwynwch y ffurflen briodol (IHT205 neu IHT207, ac IHT217 os yw'n berthnasol), wedi'i llofnodi gan bob ceisydd (gweler y nodiadau ychwanegol yn Adran 7).
- Yr ewyllys wreiddiol ac unrhyw godisiliau.
- Dau gopi A4 plaen (heb eu hardystio) heb eu styffylu o'r ewyllys ac unrhyw godisiliau.
- Copi o unrhyw ewyllysiau tramor neu unrhyw ewyllysiau sy'n delio ag asedau a ddelir y tu allan i Gymru a Lloegr (ac os nad ydynt yn Saesneg, cyfieithiad Saesneg).
- Copi swyddogol (**nid** llungopi) o'r dystysgrif marwolaeth, neu dystysgrif interim y crwner ar gyfer y sawl sydd wedi marw.
- Unrhyw ddogfennau eraill y gofynnir amdanynt yn y ffurflen hon. byddwchystal â'u rhestru yma:

Yn ogystal â'r ffi am wneud cais, codir ffi am bob copi swyddogol o'r Grant Cynrychiolaeth a ddarparwn.

Faint o gopïau swyddogol o'r Grant Cynrychiolaeth sydd eu hangen arnoch i'w defnyddio **yn** y Deyrnas Unedig?

Faint o gopïau swyddogol o'r Grant Cynrychiolaeth sydd eu hangen arnoch i'w defnyddio **y tu allan** i'r Deyrnas Unedig?

Ffi am wneud cais

£

Ffi am wneud copïau

£

**Cyfanswm ffioedd**

£

- Cerdyn Debyd neu Gerdyn Credyd. (rhaid gwneud y taliad hwn cyn i chi anfon eich cais a nodi'r cyfeirnod talu yn y blwch isod.)

Cyfeirnod Talu

- Sic/arheb bost yn daladwy i '**GLITEM**' mewn perthynas â ffioedd GLITEM. Ysgrifennwch enw'r unigolyn sydd wedi marw ar gefn y sic.

Peidiwch ag atodi dim na thynnu unrhyw beth o'r ewyllys/codisiliau gwreiddiol. Hefyd, gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw copi i chi eich hun.

## ADRAN A – GWYBODAETH BERSONOL

### 1. Ynghylch y ceisydd (ceiswyr) – Rhaid i bob ceisydd fod dros 18 oed a gall uchafswm o 4 wneud cais

#### 1.1 Teitl ac enw llawn y **ceisydd cyntaf** yn cynnwys enwau canol

#### 1.2 A yw eich enw yn wahanol yn yr ewyllys a'r codisil?

- Ydy, nodwch yr enw fel y mae'n ymddangos yn yr ewyllys neu'r codisil yn y blwch isod

- Nac ydy

#### 1.3 Eich cyfeiriad

Cod Post

#### 1.4 Eich rhif ffôn cartref

#### 1.5 Eich rhif ffôn symudol/gwaith

#### 1.6 Eich cyfeiriad e-bost

#### 1.7 Teitl ac enw llawn yr **ail geisydd yn cynnwys enwau canol**

#### 1.8 A yw enw yn wahanol yn yr ewyllys a'r codisil?

- Ydy, nodwch yr enw fel y mae'n ymddangos yn yr ewyllys neu'r codisil yn y blwch isod

- Nac ydy

---

### Defnyddiwch **BRIFLYTHRENAU** a **thiciwch y blychau sy'n berthnasol.**

---

#### Nodyn 1.1 –

bydd yr holl ohebiaeth, gan gynnwys y Grant Cynrychiolaeth, yn cael ei hanfon at y ceisydd cyntaf a enwir yn yr adran hon.

Rhestrwch y ceiswyr sy'n dymuno cael eu henwi ar y grant yn unig yn yr adran hon; bydd gofyn iddynt lofnodi'r ddogfen hon. Nodwch fod rhaid i'r enwau a ddarperir gennych yma gyfateb i'r enwau a roddir ar eich ID. e.e. pasport neu drwydded yrru.

Pan nad oes ysgutor yn gwneud cais a bod pobl o dan 18 oed yn cael budd o'r ystad, yna bydd angen dau geisydd (neu o leiaf dau) yn adran A. Efallai y byddwch eisiau cysylltu â'ch Cofrestrfa Brofiant leol i ofyn am wybodaeth ynghylch pwy sy'n gymwys i wneud cais.

---

---

#### Nodyn 1.6 – Byddwn yn cysylltu â chi gydag unrhyw ymholiadau drwy'r cyfeiriad e-bost hwn.

Anelwn at gysylltu â chi o fewn 10 diwrnod gwaith o gael eich cais.

---

**1.9** Ei gyfeiriad

Cod Post

**1.10** Teitl ac enw llawn y **trydydd ceisydd** yn cynnwys enwau canol

**1.11** A yw ei enw yn wahanol yn yr ewyllys a'r codisil?

Ydy, nodwch yr enw fel y mae'n ymddangos yn yr ewyllys neu'r codisil yn y blwch isod

Nac ydy

**1.12** Ei gyfeiriad

Cod Post

**1.13** Teitl ac enw llawn y **pedwerydd ceisydd** yn cynnwys enwau canol

**1.14** A yw ei enw yn wahanol yn yr ewyllys a'r codisil?

Ydy, nodwch yr enw fel y mae'n ymddangos yn yr ewyllys neu'r codisil yn y blwch isod

Nac ydy

## 1.15 Ei gyfeiriad

Cod Post

## ADRAN B

Bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn yr adran hon yn sail i'ch datganiad o wirionedd, a chaiff ei chadw fel cofnod cyhoeddus.

---

**Llinell Gymorth**  
**Profiant 0300 123**  
**1072**  
**0300 303 0654**  
**(Siaradwyr Cymraeg)**

---

### 2. Ynghylch yr unigolyn sydd wedi marw

2.1 Enw(au) cyntaf (gan gynnwys pob enw canol) fel maent yn ymddangos ar y Dystysgrif Marwolaeth

2.2 Cyfenw fel mae'n ymddangos ar y Dystysgrif Marwolaeth

2.3 Cyfeiriad Parhaol

Cod Post

2.4 Dyddiad Geni

2.5 Dyddiad Marwolaeth

2.6 A oedd y sawl sydd wedi marw yn cael ei adnabod dan unrhyw enw arall y byddai wedi'i ddefnyddio i ddal asedau?

Oedd, **ewch ymlaen i gwestiwn 2.7**

Nac oedd, **ewch ymlaen i gwestiwn 2.8**

**2.7** Rhowch fanylion unrhyw enwau eraill yr oedd yr unigolyn a fu farw yn eu defnyddio i ddal asedau.

Enw Llawn

--

**2.8** A oedd yr unigolyn a fu farw yn byw yn barhaol yng Nghymru a Lloegr ar ddyddiad ei farwolaeth, neu'n bwriadu dychwelyd i Gymru a Lloegr i fyw'n barhaol ( i ddibenion cyfreithiol golyga hyn eu bod yn cartrefu (*domiciled*) yng Nghymru a Lloegr. Efallai y byddech yn dymuno cael cyngor cyfreithiol ynghylch hyn).

Oedd

Nac oedd

**2.9** Beth oedd statws priodasol y sawl sydd wedi marw pan fu farw?

Erioed wedi priodi

Gweddw, ei b/phriod neu ei b/phartner sifil wedi marw o'i f/blaen

Priod/mewn partneriaeth sifil- nodwch y dyddiad

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Wedi ysgaru/partneriaeth sifil wedi diddymu- nodwch y dyddiad

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Ymwahaniad cyfreithiol – nodwch y dyddiad

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

**2.10** Beth yw enw'r llys lle y cyhoeddwyd y Dyfarniad Absoliwt, Dyfarniad Diddymu Partneriaeth neu Ddyfarniad Ymwahaniad Cyfreithiol?

--

**2.11** A oedd yr unigolyn sydd wedi marw yn berchen ar unrhyw asediam tramor?

Oedd, cyfanswm gwerth yr asedau tramor (heb gynnwys tai na thir)

£

--

Nac oedd

---

**Nodyn 2.7** – Rhaid i'r enwau hyn fod yn rhai a fydd yn ymddangos ar y grant oherwydd bod ased yn yr enw hwnnw. Nid oes angen inni wybod beth yw'r ased.

---

---

**Nodyn 2.8** – Ystyr byw'n barhaol yw bod gan yr ymadawedig naill ai gartref parhaol neu brif gartref yng Nghymru a Lloegr ar ddyddiad ei farwolaeth neu ei fod yn bwriadu dychwelyd i Gymru a Lloegr i fyw'n barhaol.

---

---

**Nodyn 2.10** – partneriaeth sifil yw perthynas o'r un rhyw sydd wedi'i chofrestru yn unol â Deddf Partneriaeth Sifil 2004. Priodas yw seremoni gyfreithiol a gynhelir yn y DU o dan Ddeddfau Priodasau 1949, 1994 a Deddf Priodasau (priodasau o'r un rhyw) 2013 neu seremoni a gynhelir mewn unrhyw wlad arall dan y gyfraith sy'n gymwys yno. Dyddiad yr ysgariad- Mae'r dyddiad hwn ar eu Dyfarniad Absoliwt, Dyfarniad Diddymu'r Bartneriaeth neu'r Ddyfarniad Ymwahaniad Cyfreithiol. Gallwch gael copi swyddogol o'r dogfennau hyn o'r llys a'u cyhoeddodd, neu o:

The Divorce Absolute Search Section, Central Family Court, 42–49 High Holborn, London WC1V 6NP.

---

**2.12** A oedd unrhyw dir wedi'i freinio yn yr unigolyn bu farw a setlwyd cyn eu marwolaeth ac a oedd dal yn dir a setlwyd er gwaethaf eu marwolaeth?

- Oedd  
 Nac oedd

**Atebwch y cwestiwn hwn dim ond os nad yw ysgutor i'r ewyllys yn gwneud cais**

**2.13** A oedd yr unigolyn bu farw neu unrhyw un o'i berthnasau wedi'u mabwysiadu'n gyfreithiol i mewn neu allan o'r teulu?

- Oedd, gweler nodyn 2.13  
 Nac oedd, ewch i gwestiwn 3

**2.14** Nodwch enwau'r perthnasau sydd wedi'u mabwysiadu'n gyfreithiol a nodwch eu perthynas â'r unigolyn bu farw. Nodwch a gawsant eu mabwysiadu i mewn i deulu'r unigolyn bu farw, neu wedi'u 'mabwysiadu allan' (wedi ymuno â theulu rhywun arall).

Enw	Perthynas	Wedi'u mabwysiadu i mewn ynteu allan o'r teulu

---

**Nodyn 2.12** - Mae'n anghyffredin i ystadau fod yn destun darpariaethau Deddf Tir Setledig 1925, ond os gwyddoch fod y ddeddf hon yn berthnasol neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, yna ceisiwch gyngor cyfreithiol.

---

---

**Nodyn 2.13** - Os bu ichi ateb oedd i'r cwestiwn hwn, efallai y bydd angen ichi gyflwyno gwybodaeth ychwanegol unwaith y byddwn wedi cael eich cais.

---

**3. Yr Ewyllys ac unrhyw godisiliau** – Mae'r adran hon yn ymwneud â'r ewyllys. Rhaid i chi gyflwyno'r ewyllys wreiddiol ac unrhyw godisiliau, os oes rhai.

**3.1** Beth yw dyddiad yr ewyllys yr ydych yn ei chyflwyno i'r llys?

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

**3.2** A wnaeth yr unigolyn bu farw hefyd adael unrhyw godisiliau, a wnaed ar ôl yr ewyllys honno?

Do, **darparwch y ddogfen / dogfennau gwreiddiol gyda'ch cais a rhestrwch isod ddyddiadau'r codisiliau rydych yn eu cyflwyno i'r llys.**

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Naddo

**3.3** A oedd gan yr unigolyn bu farw unrhyw ewyllysiau a wnaed y tu allan i Gymru a Lloegr?

Oedd

Nac oedd

**3.4** A wnaeth yr unigolyn bu farw briodi neu ymrwymo i Bartneriaeth Sifil ar ôl dyddiad yr ewyllys neu ar ôl dyddiad unrhyw godisiliau?

Do, nodwch ddyddiad y briodas neu'r bartneriaeth sifil

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Naddo

**Atebwch y cwestiwn hwn dim ond os nad yw ysgutor i'r ewyllys yn gwneud cais**

**3.5** A oes unrhyw un dan 18 oed sy'n cael rhodd yn yr ewyllys neu mewn codisil?

Oes, **Noder bydd angen i ddau ymgeisydd wneud cais yn Rhan A. Cysylltwch â'r Gofrestrfa Profiant i ganfod pwy sydd â'r hawl i wneud y cais.**

Nac oes

---

**Nodyn 3** – Nid oes rhaid i ewyllys fod yn ddogfen ffurfiol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn anfon yr ewyllys wreiddiol gyda'ch cais. Os na wnewch hynny, bydd yn achosi oedi yn y broses o ymdrin â'ch cais.

Os nad ydych wedi llwyddo i ddod o hyd i'r ewyllys wreiddiol a dim ond copi ohoni sydd gennych, ac rydych wedi gwneud pob ymdrech resymol i ddod o hyd i'r gwreiddiol, ffoniwch 0117 9302430 a dyfynnwch 'colli'r ewyllys' a byddwn yn darparu gwybodaeth ychwanegol i'ch helpu i fwrw ymlaen â'ch cais.

---

**Nodyn 3.2** – Dogfen sy'n diwygio ewyllys.

---



**3.6** Enwch unrhyw ysgutorion nad ydynt yn gwneud y cais hwn, ac esboniwch pam.

**Rhesymau dros ysgutorion yn peidio â gwneud cais:**

- A** – Buont farw cyn y sawl sydd wedi marw.
- B** – Buont farw ar ôl y sawl sydd wedi marw (nodwch y dyddiad y buont farw wrth eu henw).
- C** – Cadw'r hawl: maent wedi dewis peidio â gwneud cais, ond mae ganddynt hawl i wneud hynny nes ymlaen.
- D** – Ymwrthodiad: maent wedi dewis peidio â gwneud cais, ac yn rhoi'r gorau i bob hawl i wneud cais. (cyn i chi anfon eich cais, **darllenwch NODYN RHESWM D**)
- E** – Atwrneiaeth: maent wedi penodi neu'n dymuno penodi unigolyn arall i weithredu fel eu hatwrnai i gymryd Grant Cynrychiolaeth ar eu rhan (bydd angen i chi hefyd lenwi Adran 5 y cais hwn). (Cyn i chi anfon eich cais, **darllenwch NODYN RHESWM E**)
- F** – Nid oes ganddynt y gallu i weithredu fel ysgutor.

Enw(au) llawn yr ysgutor(ion) nad ydynt yn gwneud cais	A, B, C, D, E neu F

**Nodyn 3.6** – Ysgutor yw'r unigolyn cyntaf a all wneud cais am grant. Rydym angen gwybod pam nad yw unrhyw ysgutorion yn cael eu cynnwys yn y cais hwn. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ysgutorion sydd wedi marw.. **Os na fyddwch yn darparu'r holl wybodaeth bydd hyn yn arafu'r broses o ymdrin â'ch cais.**

**Rheswm C**

Os yw unrhyw ysgutor yn cadw'r hawl, **rhaid** i chi roi gwybod iddo yn ysgrifenedig am y cais. Dim ond i'r bobl hynny a enwir yn geiswyr yn Adran A y rhoddir y Grant Cynrychiolaeth.

**Rheswm D**

Os ydych yn datgan bod ysgutor wedi rhoi'r gorau i bob hawl i wneud cais, bydd angen i ni anfon ffurflen arall atoch i'w rhoi i'r ysgutor, er mwyn iddo ei harwyddo. ffoniwch 0117 9302430 a dyfynnwch 'Ymwrthodiad' a byddwn yn anfon y ffurflen ymwrthodiad atoch.

Bydd angen i chi anfon y ffurflen ymwrthodiad atom gyda'r cais hwn.

**Rheswm E**

Os ydych yn datgan bod ysgutor yn dymuno penodi atwrnai neu fod ganddynt atwrnai yn barod bydd angen i ni anfon ffurflen arall atoch i'w rhoi i'r ysgutor er mwyn iddo ei llofnodi, neu bydd angen i chi ddarparu un o'r ffurflenni a grybwyllir yn Adran 5.

Ffoniwch 0117 9302430 a dyfynnwch 'Atwrnai' a byddwn yn anfon y ffurflen atwrnai atoch.

Bydd angen i chi anfon y ffurflen atwrnai atom gyda'r cais hwn. Ni chaiff atwrnai un ysgutor ac ysgutor sy'n gweithredu eu hunain wneud cais ar y cyd am Grant Cynrychiolaeth.

**Rheswm F**

Os byddwch yn datgan nad oes gan ysgutor alluedd ac na all reoli ei eiddo a'i faterion ariannol, pan fyddwn yn cael y cais hwn, efallai y byddwn yn anfon tystysgrif feddygol at feddyg yr ysgutor i'w llofnodi. Os nad oes gennych dystiolaeth feddygol eisoes gan ymarferwr cymwys neu os ydych yn defnyddio Atwrneiaeth Arhosol gofrestrdig, bydd angen math byr o dystiolaeth feddygol.

Ewch i GOV.UK (gov.uk/wills-probate-inheritance/if-youre-an-executor) i argraffu'r dystysgrif feddygol PA14 neu ffoniwch 0117 9302430 a dyfynnwch 'Tystiolaeth feddygol' a byddwn yn anfon y ffurflen atoch.

Bydd angen i chi anfon y dystysgrif feddygol atom ni gyda'r cais hwn.

Ni all atwrnai un ysgutor ac ysgutor sy'n gweithredu eu hunain wneud cais ar y cyd ar gyfer Grant Cynrychiolaeth.

- 3.6**  Mae'r rhai sydd wedi llofnodi isod yn datgan bod hysbysiad ysgrifenedig wedi'i roi i bob ysgutor sydd yn cadw'r hawl ac nad ydynt yn gwneud y cais hwn.

Os byddwch yn methu â rhoi rhybudd ysgrifenedig, mae'n debyg y bydd yn arafu'r broses o ymdrin â'ch cais.

- 3.7** A wnaethoch wahanu'r ewyllys at ddibenion llungopïo?

- Do - esboniwch yn y blwch isod gan gynnwys pwy wnaeth ei wahanu, pryd y gwnaethant a pham y gwnaethant hynny.

- Naddo

- 3.8** A allwch gadarnhau bod yr ewyllys yn cynnwys y tudalennau sydd nawr yn cael eu cyflwyno ac nad oedd unrhyw dudalennau neu ddogfennau eraill o natur ewyllysïol neu natur arall wedi'u hatodi.

- Gallaf  
 Na allaf

## 4. Perthnasau'r unigolyn sydd wedi marw

4.1 A wnaeth yr unigolyn sydd wedi marw adael priod neu bartner sifil sy'n i orosi?

Do

Naddo

4.2 Faint o berthnasau trwy waed a pherthnasau mabwysiadol a oedd gan y sawl sydd wedi marw?

	O dan 18 oed	Dros 18 oed
a Faint o feibion neu ferched y sawl a fu farw wnaeth ei orosi?		
b Faint o feibion neu ferched y sawl a fu farw na wnaeth ei orosi?		
c Faint o blant y bobl a nodwyd yn 'b' a orosodd y sawl a fu farw?		

4.3 Nodwch berthynas pob un o'r unigolion sy'n gwneud cais am y grant i'r unigolyn sydd wedi marw. (os ydych yn gwneud cais fel atwrnai ar ran rhywun, ysgrifennwch 'atwrnai' yn y blwch )

Disgrifiad o'r Berthynas

Ceisydd cyntaf

Ail geisydd

Trydydd ceisydd

Pedwerydd ceisydd

---

**Nodyn 4.1** – mae 'goroesi' yn golygu eu bod yn fyw pan fu farw'r ymadawedig.

---

---

**Nodyn 4.2** – Nodwch **nifer** y perthnasau a oedd gan yr unigolyn sydd wedi marw yn yr adrannau perthnasol. Os nad oes perthnasau yna rhowch dim neu rhowch linell drwyddo.

---

## 5. Gwneud cais fel atwrnai

5.1 A ydych yn gwneud cais fel atwrnai ar ran un neu fwy o bobl sydd â hawl i wneud cais am Grant Cynrychiolaeth?

Ydw, **ewch ymlaen i gwestiwn 5.2**

Nac ydw, **ewch ymlaen i adran 6**

5.2 Rhowch enw llawn y bobl yr ydych yn gwneud cais ar eu rhan.

5.3 Rhowch eu cyfeiriad

Cod Post

5.4 A yw unigolyn yr ydych yn gwneud cais ar ei ran yn methu â gwneud penderfyniad ei hun oherwydd nam neu ymyrraeth â gweithrediad ei feddwl neu ei ymennydd?

Ydy, bydd y gofrestrfa brofiant yn gofyn am gadarnhad pellach o hyn.

Nac ydy

5.5 A oes unrhyw un wedi'i benodi gan y Llys Gwarchod i weithredu ar ran unigolyn yr ydych yn gwneud cais ar ei ran gan gynnwys yr hawl i gael grant cynrychiolaeth

Oes, **darparwch gopi swyddogol o'r gorchymyn llys gyda'ch cais**

Nac oes

5.6 A yw unigolyn yr ydych yn gwneud cais ar ei ran wedi penodi atwrnai o dan Atwrneiaeth Barhaus (EPA) neu Atwrneiaeth Arhosol Eiddo a Materion Ariannol (LPA)?

Ydy, **darparwch yr EPA/LPA gwreiddiol (neu gopi ardystiedig gan gyfreithiwr sydd wedi'i ardystio ar bob tudalen) gyda'ch cais**

Nac ydy, **ewch ymlaen i Adran 6**

5.7 A yw'r Atwrneiaeth Barhaus (EPA) wedi'i g chofrestru gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus?

Ydy

Nac ydy

**Nodyn 5** – os ydych yn gwneud cais ar ran mwy nag un unigolyn, rhowch yr wybodaeth y gofynnir amdani yn yr adran hon ar gyfer y bobl eraill yr ydych yn eu cynrychioli ar ddalen ar wahân. Bydd angen i ni anfon ffurflen arall atoch i chi ei rhoi i'r ysgutor i'w llofnodi, neu bydd angen i chi ddarparu un o'r ffurflenni y soniwyd amdanynt yn yr adran hon.

Ffoniwch 0117 9302430 a dyfynnwch 'Atwrnai' a byddwn yn anfon y ffurflen atwrnai atoch. Bydd angen i chi anfon y ffurflen atwrnai wedi'i harwyddo atom gyda'r cais hwn. Ni chaiff atwrnai un ysgutor ac ysgutor sy'n gweithredu eu hunain wneud cais ar y cyd am Grant Cynrychiolaeth.

Os oes pobl o dan 18 oed yn cael budd o'r ystad, yna bydd angen dau geisydd (neu o leiaf ddau) yn adran A. Efallai y byddwch eisiau cysylltu â'ch Cofrestrfa Brofiant leol i ofyn am wybodaeth ynghylch pwy sy'n gymwys i wneud cais.

**Nodyn 5.4** – mae hyn yn berthnasol os oes ganddynt ddiffyg galluedd o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ac os nad ydynt yn gallu rheoli eu heiddo a'u materion ariannol. Efallai y byddwch eisiau ceisio cyngor cyfreithiol am hyn. Os nad oes gennych dystiolaeth feddygol eisoes gan ymarferwr cymwys neu os ydych yn defnyddio Atwrneiaeth Arhosol cofrestredig bydd angen math byr o dystiolaeth feddygol. ffoniwch 0117 9302430 a dyfynnwch 'tystiolaeth feddygol' a byddwn yn anfon y ffurflen atoch.

**Nodyn 5.6** – Rhaid i Atwrneiaeth Arhosol fod wedi'i chofrestru gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus cyn y gellir ei ddefnyddio.

## 6. Byw Dramor

**Sylwch – Os gwnaethoch dicio'Oedd' yng nghwestiwn 2.8 nid oes angen ichi lenwi'r adran hon – ewch ymlaen i Adran 7.**

6.1 Beth oedd y wlad lle'r oedd y sawl a fu farw naill ai'n byw'n barhaol ar ddyddiad ei farwolaeth neu'n bwriadu dychwelyd i fyw'n barhaol?

6.2 Beth mae ystad yr unigolyn a fu farw yng Nghymru a Lloegr yn ei chynnwys?



6.3 A oes dogfen ymddiried, wedi'i chyhoeddi yn y wlad lle'r oedd yr unigolyn sydd wedi marw yn byw?

Oes, **darparwch y ddogfen gyda'ch cais; Os nad yw yn Saesneg, darparwch gyfieithiad hefyd Ewch i adran 7.**

Nac oes

6.4 A oes tystysgrif olynu, tystysgrif etifeddu neu ddogfen gyfatebol wedi'i chyhoeddi gan lys neu notari yn y wlad lle'r oedd yr unigolyn sydd wedi marw yn byw?

Oes, darparwch y ddogfen swyddogol gyda'ch cais. Os nad yw yn Saesneg, darparwch gyfieithiad swyddogol hefyd.

Nac oes

Oes

---

**Nodyn 6.4** – gall y dogfennau hyn helpu i gefnogi eich cais. Os nad oes gennych unrhyw un o'r dogfennau hyn, efallai bydd arnoch eisiau ceisio cyngor cyfreithiol.

---

## 7. Treth Etifeddu

### 7.1 A wnaethoch chi lenwi adroddiad Ystad Treth Etifeddu ar-lein?

- Do, peidiwch â chyflwyno ffurflen Treth Etifeddu gyda'r cais hwn  
Rhowch y manylion canlynol, **yna ewch ymlaen i'r datganiad cyfreithiol**:

Adnabyddwr IHT

Ffigwr Gros yr Ystad £

Ffigwr Net yr Ystad £

- Naddo, **ewch ymlaen i gwestiwn 7.2**

### 7.2 Pa un o'r ffurflenni treth etifeddu canlynol yr ydych wedi'u llenwi?

- Ffurflen **IHT205**, llenwch **7.3 yna ewch ymlaen i'r Datganiad Cyfreithiol**
- Ffurflen **IHT207**, llenwch **7.4 yna ewch ymlaen i'r Datganiad Cyfreithiol**
- Ffurflen **IHT400** ac **IHT421**, llenwch **7.4 yna ewch ymlaen i'r Datganiad Cyfreithiol**

#### 7.3 Darparwch y ffigyrau canlynol o ffurflen **IHT205**.

Ffigwr o flwch D £

Ffigwr o flwch F £

(Bydd y ffigwr hwn yn pennu'r ffi ar gyfer gwneud cais am brofiant (Gweler PA3))

#### 7.4 Darparwch y ffigyrau canlynol o ffurflen **IHT207**.

Ffigwr o flwch A £

Ffigwr o flwch H £

(Bydd y ffigwr hwn yn pennu'r ffi ar gyfer gwneud cais am brofiant (Gweler PA3))

#### 7.5 Darparwch y ffigyrau canlynol o ffurflen **IHT421**.

Ffigwr o flwch 3 £

(Gwerth gros yr asedau)

Ffigwr o flwch 5 £

(Gwerth Net)

(Bydd y ffigwr hwn yn pennu'r ffi ar gyfer gwneud cais am brofiant (Gweler PA3))

---

**Nodyn 7** – os gwnaethoch chi lenwi Crynodeb Treth Etifeddiu ar-lein, a llenwi cwestiwn 7.1 y ffurflen hon yn llawn, nid oes angen i chi anfon ffurflen adroddiad Ystad Treth Etifeddiu gyda'ch cais.

**Ceir arweiniad ar ffoedd profiant yn [www.gov.uk/wills-probate-inheritance](http://www.gov.uk/wills-probate-inheritance)**

---

---

**Nodyn 7.2** – os na wnaethoch lenwi adroddiad Ystad Treth Etifeddu ar-lein, **rhaid** i chi lenwi IHT205, neu IHT207, neu IHT400 ac IHT421.

---

---

**Nodyn 7.3** – os bu farw'r sawl sydd wedi marw, cyn y 1<sup>af</sup> o Fedi 2006, gall effeithio ar ba ffurflen dreth y bydd angen i chi ei llenwi, felly ffoniwch y **Llinell Gymorth Profiant ar 0300 303 4654**

---

---

**Nodyn 7.5** – Peidiwch ag anfon ffurflen IHT400 neu ffurflen IHT421 atom. Anfonwch nhw i Cyllid a Thollau EM, Treth Etifeddiu, BX9 1 HT, ar yr un pryd ag yr anfonwch PA1 a phapurau eraill i'r Gofrestrfa Brofiant Ranbarthol. Bydd HMRC yn stampio eich IHT421 ac yn ei anfon i'r Gofrestrfa Brofiant ranbarthol a nodwyd gennych ar eich ffurflen IHT421.

---

## DATGANIAD CYFREITHIOL

Mae'r rhai sydd wedi llofnodi isod yn cadarnhau y byddant yn gweinyddu ystad yr ymadawedig yn ôl y gyfraith a byddant yn:

- Casglu'r holl ystad
- Cadw holl fanylion (rhestr fanwl) o'r ystad
- Cadw cofnod llawn o sut mae'r ystad wedi cael ei rhannu

Os bydd y Gofrestrfa Profiant (llys) yn gofyn i'r rhai sydd wedi llofnodi isod, byddant yn:

- Rhoi manylion llawn yr ystad a sut y cafodd ei rhannu
- Dychwelyd y grant cynrychiolaeth i'r llys

ac yn deall:

- Y caiff y cais ei wrthod os na ddarperir y wybodaeth (os gofynnir)
- Y gellir dwyn achos troseddol am dwyll yn erbyn y sawl sydd wedi llofnodi isod os canfyddir bod y dystiolaeth a ddarparwyd yn fwiadol anwir neu'n anonest

Mae'r rhai sydd wedi llofnodi isod yn cadarnhau y byddant yn gweinyddu ystad y sawl sydd wedi marw yn unol â'r gyfraith, a bod y cais yn gywir.

RHAID I BOB UNIGOLYN SY'N GWNEUD CAIS AM Y GRANT (y rhai a restrir yn Adran A)  
ARWYDDO ISOD

Llofnod y **ceisydd cyntaf**

Dyddiad y llofnodwyd

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Llofnod yr **ail geisydd**

Dyddiad y llofnodwyd

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Llofnod y **trydydd ceisydd**

Dyddiad y llofnodwyd

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Llofnod y **pedwerydd ceisydd**

Dyddiad y llofnodwyd

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

**SYLWCH:** Cyfeiriwch yn ôl at y rhestr wirio ar dudalen 1 a sicrhewch fod gennych yr holl ddogfennau y mae angen i chi eu hanfon.

## AT DDEFNYDD SWYDDFA YN UNIG

### Sut mae'r ceiswyr yn gallu gwneud cais.

Ym mha gapasiti y mae'r unigolion hyn yn gallu gwneud cais?

- Ysgutor(ion) a enwyd yn ewyllys / codisil y sawl sydd wedi marw
- Yr Atwrnai / Atwrneiod sy'n gweithredu ar ran yr ysgutor(ion) a enwyd yn ewyllys / codisil y sawl sydd wedi marw
- Buddiolwr / Buddiolwyr a enwyd yn ewyllys / codisil y sawl sydd wedi marw
- Yr Atwrnai / Atwrneiod sy'n gweithredu ar ran y buddiolwr / buddiolwyr a enwyd yn ewyllys / codisil y sawl sydd wedi marw
- Arall (Nodwch y rheswm dros wneud cais yn y blwch isod)